CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
8 Ebrill 2015 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

YN BRESENNOL
Cyng D Michael, E Huws, S Parry, A Michael, C Ll Thomas, K Humphreys, R G Parry, D Rees (Cyngor Sir)

YMDDIHEURIADAU
Cyng I Roberts, I Rowlands, N Highley

Cadeirwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd Cyng C Ll Thomas

DATGAN DIDDORDEB - Dim

DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 11 Mawrth 2015
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 11 Mawrth 2015, Cyng S Parry yn cynnig a Cyng C Ll Thomas yn eilio.

MATERION YN CODI O'R COFNODION
Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Mae'r clerc yn disgwyl canlyniad y cais.
Plaque Eisteddfod Mon - mewn llaw
Cysgodfan Bws (yswiriant) - Mae'r clerc yn disgwyl ymateb gan y Cwmni yswiriant
23 Bro Mynydd - llosgi rwber - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
Twnnel Helyg - Mae Mrs Walker wedi adeiladu y twnnel. Bydd angen gosod llawr. Mae Cyng K Humphreys wedi gwneud ymholiadau i cael "woodbark"
Arwyddion ceffylau - Mae'r Cyngor Sir am gosod yr arwyddion
Scottish Power - Mae'r Clerc yn trefnu i un o swyddogion Scottish Power dod i siarad gyda ni
Cyfrif y Maes Chwarae - mewn llaw
Llosgi Gwastraff - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
Gosod Tai Bryngwran - Mae'r Clerc wedi siarad gyda'r Cyngor Sir - mae tai yn cael eu gosod ar y system pwyntiau
Williams Homes Bala - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
Capel Salem - mae'r Clerc wedi siarad gyda'r perchennog newydd. Mae hi yn bwriadu gwneud gwaith twtio ar yr adeilad yn y dyfodol agos a bydd yn cyflwyno cais cynllunio.
Maes chwarae (preniau a llwybr) - Mae y Cadeirydd a Cyng I Rowlands wedi cael cyfarfod ar y safle gyda Cymunedau yn Gyntaf ac yn disgwyl pris am y gwaith.
Arwydd Bryngwran - mae y Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir

LLOFNOD (Cadeirydd) 13 Mai 2015

ARODDIAD Y CADEIRYDD - (Cadeirydd yn absennol)

GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON

Cynllunio

16C110G/VAR Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (14) o ganiatad cynllunio rhif 16C110F (codi annedd) er mwyn newid y dyluniad arfaethedig i ychwanegu dwy ffenest gromen ar dir ger Cranham, Bryngwran - dim sylwadau

Adran Addysg

Grant Ymddireidolaeth Elusennol Ynys Môn - gwybodaeth yn unig

Priffyrdd

Ymgynghoriad Gwasanaeth Bws - gwybodaeth yn unig

GOHEBIAETH YCHWANEGOL

Dim

MATERION ARIANNOL

Penderfyniwyd talu - Mrs D Walker £579.00 (twnnel helyg)- Cyng K Humphreys yn cynnig a Cyng R G Parry yn eilio

MATERION ERAILL

Tim peldroed - Cynigodd Cyng D Michael gwneud ymholiadau ar gyfer creu tim peldroed i plant Bryngwran**.**

Maes Chwarae - Gofynwyd i'r Clerc cael pris am swing newydd, trefnu cael trin y cadwyni ar yr offer a gofyn i Rospa os yr ydym yn cael gosod "bark" yn lle y matiau rwber

LLOFNOD (Cadeirydd) 13 Mai 2015